HIJINX THEATRE

mencap cymru
Llais anabledd dysgu
The voice of learning disability

# Gŵyl Undod


# Unity Festival

## 28 MEH - 4 GORFF 2010

# CYFLWYNIAD I'R ŴYL



029 2063 6464


Llun: Kiran Ridley

Pierhead

CANOLFAN MILENIWM CYMRU
WALES MILLENNIUM CENTRE®

Gŵyl Undod

CYFLWYNIR GAN

HIJINX THEATRE · CANOLFAN MILENIWM CYMRU WALES MILLENNIUM CENTRE · mencap cymru

# CROESO I ŴYL UNDOD - CYFLWYNIAD

WOW! Dyma drydedd flwyddyn **Gŵyl Undod** ac mae wythnos arall llawn adloniant a chyfranogaeth yn mynd i fod ar gael, gyda llawer ohono am ddim! Fel y gwelwch o'r cyflwyniad cyfleus hwn, mae llawer o bethau cyffrous yn digwydd.

Wrth ochr **Canolfan Mileniwm Cymru**, mae gennym gydleoliad yn **'The Pierhead'**, ble bydd yr **'Oska Bright Film Festival'** gwych yn cael ei gynnal. Byddwn hefyd yn ymuno â **Gŵyl Maindee** i gyflwyno digwyddiadau Undod yng Nghasnewydd, tra bydd **Gig Diweddglo Undod** yn digwydd yn **Ystafell CF10 Undeb Myfyrwyr Caerdydd.**

Gobeithio y gallwch weld cymaint ag sy'n bosib a chymryd rhan cymaint ag y gallwch gan ein helpu i gael yr ŵyl Undod orau eto!

**Hijinx Theatre**

## MAE PERFFORMIADAU I GADW GOLWG AMDANYNT YN CYNNWYS:

**Back to Back Theatre** (Awstralia): Mae hon yn orchest go iawn, *"one of the foremost theatre companies in the world"* ar eu hymweliad cyntaf â Chymru.

**TAN Dance** (Cymru), **Asi Somos** (Sbaen), **Indepen_Dance** (Yr Alban) yn rhoi lle amlwg i oddeutu hanner cant o ddawnswyr gyda'r dawnsfeydd wedi eu trefnu gan yr arloeswr theatr ddawns gynhwysol, **Wolfgang Stange**.

**Clownfish** (Barcelona) a **Clownbaret** (Tenerife): Mae'r Sbaenwyr yn dychwelyd i roi gwên ar ein hwynebau.

**Blue Eyed Soul** (dyfeiswyr dawns gynhwysol o Amwythig): Gwaith mentrus o'r awyr a theithiau anturus: *Take; a dance in the park* a *Sugar*.

## SUT I DDEFNYDDIO EICH CYFLWYNIAD I'R ŴYL

**Cofiwch**, er bod y gweithdai am ddim, does dim llawer ohonynt, **felly neilltuwch le cyn gynted ag y medrwch**. Gallwch neilltuo lle yn y Swyddfa Docynnau neu ar-lein ar **www.wmc.org.uk/undod** neu ffonio'r Swyddfa Docynnau ar **029 2063 6464.**

**Fe welwch y logos yma drwy'r Cyflwyniad i gyd:**

- **Perfformiad neu Ffilm**
- **Gweithdy neu Ymuno**
- **Bydd perfformiadau gyda'r symbolau hyn yn costio £8 (£6 Cons.)**
- **Perfformiad BSL**

## PERFFORMIADAU STIWDIO WESTON

Mae pob perfformiad yn Stiwdio Weston yn costio £8 \ £6 (Cons.)

**TOCYN ŴYL**
**Neilltuwch le ar gyfer 3 pherfformiad yn Stiwdio Weston am bris 2**

3 sioe am 2

Mae cwsmeriaid ag anableddau yn cael **tocynnau cydymaith** am ddim.

**Tocynnau a Gwybodaeth**
**wmc.org.uk/undod**
**029 2063 6464**
**Minicom 029 2063 4651**

**Eiconau Lleoliadau** (bydd y rhain yn dweud wrthych ble bydd digwyddiad yn cael ei leoli)**:**


- Canolfan Milenwim Cymru, Bae Caerdydd
- The Pierhead, Bae Caerdydd
- Ystafell CF10, Undeb Prifysgol Caerdydd, Parc-y-Plas, Caerdydd
- Gŵyl Maindee, Casnewydd

**Hygyrchedd -** Mae'r Ganolfan yn gwbl hygyrch. Rydyn ni'n fwy na pharod i'ch helpu os oes gennych ynrhyw ofynion neilltuol. Ffoniwch ni ar **029 2063 6464**.

**Y Swyddfa Docynnau ac archebu gweithdai: 029 2063 6464**

# DYDD LLUN 28AIN MEHEFIN

## ARDDANGOSFA'R ŴYL




**Coleg Pen-y-Bont ar Ogwr a Choleg Maesteg**
Llwybrau at Ffotograffiaeth
**Cyntedd Lefel 1 Y Ganolfan**
21 Mehefin - 4 Gorffennaf **Am ddim**
(Lansiad: 6:30pm-7:30pm dydd Llun 28ain Mehefin)
Ffotograffau gan fyfyrwyr o Goleg Maesteg a Choleg Pen-y-bont ar Ogwr

Gŵyl Ffilmiau Oska Bright
**The Pierhead**
*Dosbarth Meistr Gwneuthurwyr Ffilm*
10:30am - 12:30pm **Am ddim**
Dysgwch sut i wneud eich ffilm fer eich hun gyda thîm Oska Bright, buddugwyr *Gwobrau Lotri Genedlaethol Prosiect Celfyddyd Gorau.*

**Yn agored i unrhyw un dros 16 gyda diddordeb mewn gwneud ffilmiau i bobl ag anabledd dysgu.**

**Neilltuwch eich lle trwy'r Swyddfa Docynnau.**

Gŵyl Ffilmiau Oska Bright
**The Pierhead**
*Dangos Ffilmiau* **Am ddim**
1:20pm - 2pm & 2:15pm - 3pm
Detholiad o'r ffilmiau byrion gorau a wnaed gan wneuthurwyr ffilm ag anabledd dysgu – gan gynnwys y cynnig Cymraeg *Desperate Dai – Ffilm Gowbois Cymraeg* (a welir isod).
**Neilltuwch eich lle trwy'r Swyddfa Docynnau.**



Lansiad Gŵyl Undod
**Llwyfan Glanfa**
5pm - 6pm **Am ddim**
Ymunwch â ni i ddathlu dechrau'r ŵyl gyda 'Clownfish' (Barcelona), 'Clownbaret' (Tenerife) a grŵp o 20 o berfformwyr lleol. Byddwch yn barod am annibendod a phethau annisgwyl!



Clownfish a Clownbaret
*"Pedestrian Police "*
UNITY 2009


Cadwch olwg am **Sleepwalkers** Clownfish a Clownbaret trwy gydol yr wythnos yn y Ganolfan

**Cwmni Blue Eyed Soul Dance**
*Take; a dance in the park*
a *Sugar*



**Stiwdio Weston**
7:30pm **£8 (£6 Cons.)**
**Perffomiad BSL**
Mae 'Blue Eyed Soul' yn ddyfeiswyr dawns gynhwysol. Mae *Take; a dance in the park* yn waith mentrus o'r awyr a berfformir gan dri o ddawnswyr. Maent yn ymlithro, yn arnofio a throelli o amgylch rig alwminiwm, ar daith anturus chwareus. Mae *Sugar* yn sôn am un ddynes, Sally, a'i chadair olwyn.

**3 sioe am 2**



Lluniau: Dave Provis

## DYDD MAWRTH 29AIN MEHEFIN

Touch Trust
Sesiwn Ddawns Anuffurfiol

**Llwyfan Glanfa -** 1pm - 2pm **Am ddim**

Sesiwn symud greadigol sy'n fywiog, cwmdeithasol ac egniol.

**Yn agored i bawb; dim angen neilltuo lle, dim ond cyrraedd!**

Hijinx Theatre yn cyflwyno:
Odyssey Theatre - *Rigolotto*

**Llwyfan Glanfa -** 6pm - 6:30pm **Am ddim**

Bydd *Odyssey Theatre* yn mynd â chi ar daith gerddorol o amgylch Canolfan Mileniwm Cymru, mae'r stori wedi ei seilio yn fras ar opera *Rigoletto* gan Verdi.
Mae'r prosiect wedi ei greu gyda help gan Opera Cenedlaethol Cymru.

Clownfish a Clownbaret
*Count Pacy & the Prime Numbers*

**Llwyfan Glanfa -**
7pm - 7:30pm **Am ddim**

Mae *Clownfish* a *Clownbaret*, ynghyd ag ugain o berfformwyr lleol, yn mynd â chi trwy concerto o straeon digrif.

### TAN Dance
*Metamorphosis*

**Stiwdio Weston -** 8pm **£8 (£6 Cons.)**



Llun: Neil Lewis Photography

Prosiect dawns gynhwysol TAN Dance Mae *Take This* yn ymuno â *Indepen_Dance* (Yr Alban) ac *Asi Somos* (Sbaen) ar ddarn cyffrous yn cynnwys hyd at hanner cant o berfformwyr. Y dawnsfeydd wedi eu trefnu gan arloeswr dawns gynhwysol bydenwog Wolfgang Stange.

3 sioe am 2

## DYDD MERCHER 30AIN MEHEFIN

Preswyliad Back To Back Theatre
*The Democratic Set - Video Portraits*

**Urdd -**
10am - 7pm **Am ddim**

Mae *Back to Back Theatre* penigamp wedi dod o Awstralia i ymuno â ni yng Gŵyl Undod eleni. Preswyliad 3-diwrnod yw'r *The Democratic Set* sy'n arwain at berfformiad ar y cyd **ddydd Gwener 2ail Gorffennaf** yn **Stiwdio Weston**.

**Disgrifiad**

Heb i'r un perfformiad unigol bara'n fwy na 16 eiliad, mae *The Democratic Set* yn orymdaith o bortread, bocs sebon a drama. Gan gael eu cyflwyno mewn set ffilm bwrpasol, mae pob perfformiad yn digwydd yn yr un amgylchedd. Y canlyniad i hyn yw fforwm weledol, sy'n dangos sut y gall perfformio, fel democratiaeth, fod yn ffordd o ddarllen y byd, gan adael i bobl gael eu gweld, dweud eu dweud a chael eu clywed.

**Mae gennych gyfle i ddod yn rhan o'r preswyliad hwn trwy neilltuo lle i gael ffilmio eich portread o fewn** *The Democratic Set* **- mae hwn yn gyfle cyffrous i gymryd rhan mewn rhywbeth arbennig iawn!**



Llun: Jeff Busby

**I neilltuo sesiwnau ffilmio dydd Mercher 30ain Mehefin neu am ragor o wybodaeth, ffoniwch Theatr Hijinx ar 029 2030 0331.**
Mae sesiwnau yn para ugain munud i unigolion a deugain munud i grwpiau. (15 yw'r nifer mwyaf y gall grŵp fod).

## Seminar
*Llwybrau*

**The Pierhead -** 10am - 1pm **Am ddim**

Seminar gan gwmni TAN Dance. Cyfle i drafod y cyfleoedd hyfforddiant sydd ar gael i oedolion ag anabledd ddysgu. Mae'r seminar hefyd yn archwilio gwahanol lwybrau ac opsiynau sydd ynghlwm ag iechyd a lles.

**Neilltuwch eich lle drwy'r Swyddfa Docynnau.**

## Gweithdy Wolfgang Stange

**Ystafell Japan**

10:30am - 12:30pm **Am ddim**

Gweithdy symud agored, sy'n cael ei redeg gan Wolfgang Stange, yn edrych ar ei ddulliau gweithio. **Yn agored i bawb dros 18 gyda diddordeb mewn dawns a theatr gynhwysol.** **Neilltuwch eich lle drwy'r Swyddfa Docynnau.**



## Gweithdy Cerddoriaeth Gymunedol Cymru

**Llwyfan Glanfa -** 1pm - 2pm **Am ddim**

Dysgwch am greu cerddoriaeth mewn gweithdy a gymerir gan gerddorion proffesiynol o *Gerddoriaeth Gymunedol Cymru.*

**Does dim angen neilltuo lle, dim ond cyrraedd!**



Llun: Cerddoriaeth Gymunedol Cymru

## Gweithdy Hijinx Theatre

**Ystafell Japan -** 2:30pm - 4pm **Am ddim**

Mae Cyfarwyddwr Celfyddydol *Hijinx Theatre* Gaynor Lougher, yn arwain gemau ac ymarferion a ddefnyddir wrth greu theatr gynhwysol. **Yn agored i bawb dros 18 gyda diddordeb mewn theatr gynhwysol.**

**Neilltuwch eich lle drwy'r Swyddfa Docynnau.**

## Hijinx Theatre
*Into My Own*

**Stiwdio Weston**

7:30pm **£8 (£6 Cons.)**

Mae *Into My Own* gan Glenys Evans, wedi ei gyfarwyddo gan James Williams a Gaynor Lougher, yn dilyn stori Anne. Mae ei mam yn gorfod cael gofal hirdymor, heb adael unrhyw gynllun ar gyfer dyfodol Anne. Yna mae Anne yn cyfarfod â Dilys sy'n ysbrydoliaeth iddi – enaid rhydd sy'n caru ei bywyd annibynnol. Mae Dilys yn llawn lliw a symud.

Ai Dilys yw'r un i helpu Anne i gofleidio bywyd newydd cyffrous, gan wneud pethau na fuasai wedi breuddwydio eu gwneud o'r blaen?




Llun: Hijinx Theatre

## Cerddoriaeth Ganol yr Wythnos

**Llwyfan Glanfa**

8:30pm - 9:30pm **Am ddim**

Arhoswch am ddiod a dawns ar ôl sioe Hijinx. Cerddoriaeth fyw gan fand lleol **Vaguely Artistic** ochr yn ochr â'r **Impact Allstars** o Lundain.

# DYDD IAU 1AF GORFFENNAF

## Gweithdy Theatr Ffynnon

**Ystafell Japan -** 10:30am - 12pm **Am ddim**

Dysgwch am y prosiect *Theatr Ffynnon* ddiweddaraf, *25 Shapes in Full Colour*. Cewch y cyfle i greu eich ffurf eich hun gyda cherddor a chyfarwyddwr celfyddydol Theatr Ffynnon, gan gael profiad o'r broses ar waith.

Mae'r prosiect hwn a gwaith Theatr Ffynnon yn dathlu mynegiant personol.

**Mae'r gweithdy hwn yn agored i bawb dros 18 oed sydd â diddordeb mewn theatr gynhwysol a cherddoriaeth.**

**Neilltuwch le trwy'r Swyddfa Docynnau.**



Clownfish a Clownbaret - Dizzyland UNITY 2009
Llun: Ceri Legg

## Gweithdy Cerddoriaeth Gymunedol Cymru

**Llwyfan Glanfa -** 12pm - 1pm **Am ddim**

Dysgwch am greu cerddoriaeth mewn gweithdy a gymerir gan gerddorion proffesiynol o *Gerddoriaeth Gymunedol Cymru.*

**Does dim angen neilltuo lle, dim ond cyrraedd!**

## Clownfish a Clownbaret
### *The Wedding Planner*

**Llwyfan Glanfa -** 6:30pm - 7pm **Am ddim**

Cyfle arall i ddal *Clownfish* a *Clownbaret* a grŵp o ugain o berfformwyr yn dod ag annibendod a phethau annisgwyl!

## Hijinx Theatre - *Into My Own*

**Stiwdio Weston**

1:30pm **£8 (£6 Cons.)**

**Perfformiad BSL**

Gan Glenys Evans, wedi ei gyfarwyddo gan James Williams a Gaynor Lougher

*(Gweler rhestr dydd Mercher am ddisgrifiad)*

3 sioe am 2



Gweithdy Touch Trust
Llun: Dave Daggers

## Chris Tally Evans
### *Tales of First and Second Sight*

**The Pierhead**

3:30pm - 4:30pm **Am ddim**

Mae Chris wedi byw hanner ei fywyd gyda golwg 20/20 a'r hanner arall gydag amhariad prin ar ei olwg. Mae hyn wedi newid y ffordd y mae'n gweld pethau yn llythrennol ac yn drosiadol. Portread yw *Tales* wedi ei wneud o lawer o bortreadau eraill, cyfres o storïau byw a digidol, pob un yn gyflawn yn ei rhinwedd ei hun, pob un yn amrywio mewn arddull a chynnwys.

**Neilltuwch eich lle drwy'r Swyddfa Docynnau.**

## Hijinx Theatre - *Into My Own*

**Stiwdio Weston**


7:30pm

**£8 (£6 Cons.)**

Gan Glenys Evans, wedi ei gyfarwyddo gan James Williams a Gaynor Lougher

3 shows for 2

*(Gweler rhestr dydd Mercher am ddisgrifiad)*



# DYDD GWENER 2AIL GORFFENNAF

## Touch Trust a Cherddoriaeth Gymunedol Cymru
*Gweithdy Agored*

**Touch Trust**

11am - 12:30pm **Am ddim**

Cydweithredu bywiog a llawn hwyl yn cyfuno celfyddyd symud a phaladr sain! Mae croeso i chi ddod i ymuno neu dim ond eistedd i wylio'r gweithgaredd!

**Yn agored i bawb; dim angen neilltuo lle, dim ond cyrraedd!**

## Touch Trust
*Sesiwn Ddawns Anffurfiol*

**Llwyfan Glanfa**

1:30pm - 2:30pm **Am ddim**

Sesiwn symud greadigol llawn mynd, gymdeithasol sy'n bywiocáu.

**Yn agored i bawb; dim angen neilltuo lle, dim ond cyrraedd!**

## Amici Dance Theatre
*The Documentary*

**The Pierhead -** 2pm - 3:30pm **Am ddim**

Golwg fanwl ar arferion gweithio Wolfgang Stange, yn cael ei adrodd gan Ben Kingsley.

**Yn agored i bawb; dim angen neilltuo lle, dim ond cyrraedd!**

## Back To Back Theatre
*Dangos y Ffilm: small metal objects*

**The Pierhead Am ddim**

3:45pm - 4:30pm

Gwyliwch y darn arloesol hwn wedi ei amgylchynu gan 6 sgrîn, gan *Back to Back Theatre*

**(Hoffem dynnu eich sylw – ceir peth iaith gref)**

**Yn agored i bawb; dim angen neilltuo lle, dim ond cyrraedd!**



small metal objects

Llun: Jeff Busby

## Celfyddydau Anabledd Cymru Unusual Stage School
*Pride! The Opera - The Real Independence Day*

**Llwyfan Glanfa -** 5pm - 5:30pm **Am ddim**

Daw Unusual Stage School, hyrwyddfan Celfyddydau Anabledd Cymru ar gyfer perfformwyr anabl, â'u darn newydd i Ganolfan Mileniwm Cymru. Mae *Pride!* yn opera sothach fodern, gyffrous, sy'n ganeuon i gyd, sy'n dathlu hawliau anabledd a byw yn annibynnol.



CAC Unusual Stage School *Moulin Rouge* UNITY 2009
Llun: Ceri Legg

## Back To Back Theatre
*The Democratic Set*

**Stiwdio Weston**

7:30pm **£8 (£6 Cons.)**

Diweddglo preswyliad tri diwrnod *Back To Back Theatre* yng Ngŵyl Undod. Bydd y perfformiad cyfrannog hwn yn rhannol fyw ac yn rhannol yn fersiwn sgrîn y portreadau fideo fydd yn cael eu casglu yn ystod yr wythnos. Os ydych wedi creu portread fideo, dewch draw i weld eich hun ar y sgrîn; fel arall dewch draw i weld yr hyn sy'n addo bod yn ddiwedd cyffrous i wythnos o ddigwyddiadau Undod yn Y Ganolfan.

**3 sioe am 2**



Llun: Jeff Busby

## DYDD SADWRN 3YDD GORFFENNAF

Mae Undod yn cyflwyno yng
**Gŵyl Maindee** 12pm - 8:30pm
**Man Cychwyn - Clŵb Rygbi Casnewydd 12pm**
**Maes yr Ŵyl - Ysgol Maindee**
**(ger Cae Clŵb Rygbi Casnewydd (Rodney Parade), Corporation Road)**

Eleni rydym yn falch o gael ymuno â **Gŵyl Maindee** yng Nghasnewydd.
Yn perfformio ac yn cymryd rhan yn yr orymdaith fydd:

**Hijinx Theatre yn cyflwyno:**
Odyssey Theatre's *Circus Pod*
*Vaguely Artistic*

**Clownfish a Clownbaret:**
*The Wedding Planner*
*Count Pacy & the Prime Numbers*
*The Sleepwalkers*
*The Fool's Militia*

**Impact Theatre yn cyflwyno:**
*The Impact Allstars*

**Gobeithio y gallwch ymuno â ni!**

**www.maindee.org**





Clownfish a Clonwbaret *Pedestrian Police* UNITY 2009
Llun: Ceri Legg

## DYDD SUL 4YDD GORFFENNAF

cf10

# Gig Diweddglo Undod

**Ystafell CF10 \ Undeb Myfyrwyr Caerdydd**
**Parc-y-Plas \ Caerdydd \ CF19 3QN**

**8pm - 12pm - Tocynnau £5 wrth y drws**


Mae'n amser parti wrth i ni ddathlu diwedd Undod 2010 gyda rhestr o gerddoriaeth byw sy'n ddigon i dynnu dŵr i'ch dannedd. **Lizzie Emeh**, yr artist cyntaf ag anabledd dysgu i ryddhau albwm unawd, fydd y prif berfformiad gyda chefnogaeth gan:

**Funky Love Posse** – Ar ôl perfformiad buddugoliaethus yn gig y llynedd; **The Impact Allstars** – Ein band preswyl Undod 2010 – **Vaguely Artistic** – **The Odyssey Pod band** – a chabare drwy gydol y nos gan **Count Pacy and the Prime Numbers**


Bydd gig Undod yn fan diogel i chi fwynhau noson allan. **Sylwer:** nid yw tocynnau ar gael trwy linell docynnau Canolfan Mileniwm Cymru ar gyfer y digwyddiad hwn, ond byddant ar gael wrth y drws.
Mae'r digwyddiad hwn yn agored i unrhyw un dros 14.










Er mwyn cyrraedd lleoedd parcio i'r anabl Canolfan Mileniwm Cymru, **dewch o gyfeiriad 'Pierhead St.'** I neilltuo lle gwag ffoniwch **029 2064 6464**

HIJINX THEATRE

mencap cymru
Llais anabledd dysgu
The voice of learning disability

CANOLFAN MILENIWM CYMRU
WALES MILLENNIUM CENTRE

Ar y cyd â:

MAINDEE FESTIVAL'S · COMMUNITYMUSICWALES CERDDGYMUNEDOLCYMRU · Pierhead · Disability Arts Cymru / Celfyddydau Anabledd Cymru · touch TRUST

Mae digwyddiadau yn Undod 2010 wedi eu cefnogi gan:

institut ramon llull · BARCLAYS · Legal & General · Australia Council for the Arts · Cynulliad Cenedlaethol Cymru / National Assembly for Wales · Gobierno de Canarias · CANARIAScrea · Legacy Trust UK · LOTTERY FUNDED / ARIENNIR GAN Y LOTERI · SHERMAN CYMRU · ARTS VICTORIA · Victoria The Place To Be · ARIENNIR GAN Y LOTERI / LOTTERY FUNDED

Cyngor Celfyddydau Cymru / Arts Council of Wales · Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru / Sponsored by Welsh Assembly Government · Millennium Commission Lottery Funded · Supported by The National Lottery through the Arts Council of Wales / Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol trwy Gyngor Celfyddydau Cymru · CARDIFF CAERDYDD